



Adennill Hanes o'r Môr

Reclaiming History from the Sea


Yn 2007, dechreuodd y Comisiwn Brenhinol raglen fawr newydd o waith ymchwil i estyn Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC) i gwmpasu cyfran y DU o'r Sgafell Gyfandirol sy'n gyfagos i Gymru. Gan weithio gyda Chofnodion Henebion Cenedlaethol Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Lloegr, Yr Alban ac Ynys Manaw, mae llongdrylliadau a ffurfiau eraill ar asedau tanddwr yr amgylchedd hanesyddol bellach yn cael eu cofnodi ym mhob rhan o Fôr Iwerddon.

In 2007, the Royal Commission began a major new programme of research to extend the National Monuments Record of Wales (NMRW) to cover the UK's share of the Continental Shelf adjacent to Wales. Working in collaboration with the National Monuments Records of Ireland, Northern Ireland, England, Scotland and the Isle of Man, shipwrecks and other forms of underwater historic environment assets are now being recorded throughout the Irish Sea.




Uchod: Mae safleoedd Palaeolithig newydd yn cynnwys elfennau o hen dirweddau megis dyffrynnoedd afonydd a deltâu sydd wedi'u cadw yn adeiledd daearegol gwely'r môr, ynghyd â mwy na 60 o eangderau o goedwedd gynhanesyddol yn yr ardal rynglanw. Dangosir un enghraifft yma – mae'r gefnau o raeau bras yng nghefn y traeth wedi cilio yn Llanrhystud, Ceredigion, gan ddatgelu haen o fawn sy'n cynnwys bonion coed hynafol o'r cyfnod Mesolithig.

Above: New Palaeolithic sites include elements of former landscapes such as river valleys and deltas preserved in the geological structure of the seabed, plus over 60 expanses of prehistoric forest in the intertidal zone. An example is shown here—the shingle ridge at the back of the beach has retreated at Llanrhystud, Ceredigion, revealing a layer of peat containing ancient tree stumps dating to the Mesolithic period.



Uchod: Mae CHCC bellach yn cynnwys mwy na 340 o gofnodion ar gyfer awyrennau sifil a milwrol a gollwyd ar hyd y blynyddoedd, o gyfnod cynnar yr arloeswyr hedfan i'r Ail Ryfel Byd. Mae'r rhain yn cynnwys T9044, cwch hedfan Short Sunderland Marc 1 a suddwyd ger Doc Penfro ac sy'n cael ei ddangos yma fel delwedd sonar ochr-sgan. Gwyddom fod o leiaf 21 o safleoedd tebyg ar hyd arfordir Cymru lle mae awyrennau nad oes unrhyw enghreifftiau ohonynt yn parhau i weithio neu mewn amgueddfeydd.

Above: The NMRW now contains over 340 records for civilian and military aircraft losses from the early years of pioneering flight through both World Wars. These include T9044, a Mk1 Short Sunderland flying boat sunk off Pembroke Dock, shown here as a side-scan sonar image. We now know that there are at least 21 other sites around the Welsh coast, where there are no surviving comparable aircraft still in service or in museum collections.



Chwith: Mae oddeutu 1500 o safleoedd llongdrylliadau wedi'u cadarnhau hyd yn hyn, gan gynnwys Dwyreilongau o'r ddeunawfed ganrif a nifer fawr o longau masnach arfordirol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ogystal â 100 a mwy o longau a suddwyd gan y gelyn yn ystod y ddau Ryfel Byd. Bu llawer o ddarganfyddiadau newydd – megis y cwch cludo llechi hwn a ddaeth i'r golwg ar Draeth Castellmarch, ger Abersoch, yn ystod gaeaf 2013.

Left: We now know that there are some 1500 confirmed wreck sites, including eighteenth-century East Indian and large numbers of nineteenth-century coastal traders, as well as over 100 losses from enemy action during the World Wars. Many new discoveries have been made— such as this slate-carrying vessel uncovered on Warren Beach, near Abersoch, over the winter of 2013.

Chwith: O ganlyniad i ymchwil archifol y Comisiwn Brenhinol, mae CHCC yn awr yn cynnwys manylion mwy na 5600 o longau a gollwyd. Dyma eitem o'r papur newydd The Welshman am dymestl ym mis Hydref 1859, a rhai enghreifftiau o gadarnhau llongdrylliadau mewn cofrestr llongau a gadwyd gan Rwydwaith Archifau Cymru.

Left: As a result of the archive research undertaken by the Royal Commission, the NMRW now contains details of over 5600 shipping losses. Shown here is an extract from The Welshman newspaper regarding a gale in October 1859, and some of the confirmations of wrecking from Shipping Registers preserved by the Welsh Archives Network.

